# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4647

# 92

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-2 a 4-8. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Atebwyd cwestiwn 6 gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd cwestiynau 1-2 a 4-7. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 6 a 7 gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.05

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**

Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r cyhoeddiad y bydd Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn colli contractau gyda Jaguar Land Rover ar ôl 2020?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.19

Gwnaeth Elin Jones ddatganiad i dalu teyrnged i'r artist diweddar Aneurin Jones.

Gwnaeth Suzy Davies ddatganiad ar gynnig Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU 2021, sydd wedi cyrraedd y rhestr fer.

Gwnaeth Julie Morgan ddatganiad ar gerflun o Mahatma Gandhi a ddadorchuddiwyd ym Mae Caerdydd.

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Cyflwyno Bil a gynigir gan Bwyllgor - Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.24

## 6 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.54

**NDM6509**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

David Melding (Canol De Cymru)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr angen i liniaru cynhesu byd eang a chefnogi cytundeb Paris o'r 21ain gynhadledd o'r partïon ('Cytundeb Paris') drwy dorri allyriadau carbon a nodi bod hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. Yn nodi bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i hymgorffori yng ngwaith y Cynulliad gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwil pellach i ddichonoldeb cynllun peilot cyfrifon carbon personol yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 'Gwireddu'r Uchelgais - Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru'

Dechreuodd yr eitem am 16.25

**NDM6518** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ei 'Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.06

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6520** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod prinder meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn peri risgiau i ddiogelwch cleifion a'r gallu i gyflenwi gwasanaethau'n ddiogel.

2. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i weithredu cynllun gweithlu effeithiol a chynaliadwy ar gyfer GIG Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 30 | 41 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi'r effaith y gall prinder meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ei chael ar ddarparu gwasanaethau.

2. Yn croesawu ymrwymiad holl staff GIG Cymru i ddarparu gofal iechyd tosturiol o safon uchel.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 4 | 14 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â sectorau perthnasol i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn digwydd mewn modd cydlynol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM6520** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r effaith y gall prinder meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ei chael ar ddarparu gwasanaethau.

2. Yn croesawu ymrwymiad holl staff GIG Cymru i ddarparu gofal iechyd tosturiol o safon uchel.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â sectorau perthnasol i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn digwydd mewn modd cydlynol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 9 | 0 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.57

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.59

**NDM6519** Lee Waters (Llanelli)

M4 sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Daeth y cyfarfod i ben am 18.26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Hydref 2017**